

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warchod a hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae'n ystyried effaith unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar unigolion a grwpiau gwahanol, yn cynnwys effaith ar y rheini â nodweddion gwarchoddedig.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft ar 1 Hydref 2018.<sup>1</sup> Yn ogystal â'r polisi cyffredinol a darpariaethau'r Bil drafft, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried effeithiau eraill gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cynnwys effeithiau ar ddiwydiannau eraill, y syrcasau, plant a phobl ifanc, a'r effaith ar y Gymraeg. Anogwyd ymatebwyr i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ionawr 2019.<sup>2</sup>

Mae naw deg saith y cant o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Mae chwe deg y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai gwaharddiad yn cael effaith ar y diwydiant syrcas; roedd y mwyafrif yn ystyried y byddai hynny'n effaith gadarnhaol. Mae llawer o ymatebwyr yn cytuno bod dyhead y cyhoedd i weld perfformiadau anifeiliaid gwyllt wedi pylu ac y byddai mwy o bobl yn ymweld â syrcasau teithiol pe na fyddent yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

Nid oes effaith debygol ar aelwydydd incwm isel. Nid yw mwyafrif y syrcasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt ac nid oes fawr o wahaniaeth rhwng tocynnau prisiau syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a'r rhai sydd ddim. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.<sup>3</sup> Yn 2018, roedd prisiau tocynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y ddau syrcas sy'n parhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn debyg i docynnau a hysbysebwyd ar wefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol 15 o'r 30 sydd ddim yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

Mae tri y cant o ymatebwyr yn anghytuno y byddai gwahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith bosibl ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid. Y prif reswm a roddir yw bod rhai ymatebwyr o'r farn bod syrcasau teithiol yn rhoi cyfle na fyddai plant yn ei gael fel arall i weld a dysgu am anifeiliaid gwyllt. Fodd bynnag, byddai plant yn dal i gael cyfle i weld a chael profiad o anifeiliaid gwyllt a dysgu

---

<sup>1</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) <<https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>>

<sup>2</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru), Crynodeb o'r Ymatebion <<https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>>

<sup>3</sup> Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <<http://www.circusgb.com/index.html>>

amdanynt yn un o'r sŵau lawer sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981.<sup>4</sup> Mae sŵau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am y rhywogaethau a ddangosir a'u cynefin naturiol. Gall sŵau gynnig mynediad gwell i bobl anabl oherwydd eu lleoliadau parhaol hefyd.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer sgrinio i asesu effaith debygol ar gydraddoldeb (gweler y Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig isod). Byddai disgwyl i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol effeithio ar gydraddoldeb pawb sy'n cael ei effeithio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn un gadarnhaol, ac na fydd yr effaith yn ymwneud yn benodol ag unrhyw nodwedd warchoddedig neu grŵp gwarchoddedig penodol, ond â chymdeithas yn ehangach. Mae hyn yn gydnaws â chasgliad Llywodraeth yr Alban na fyddai anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu heffeithio, a pham na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan gyflwynwyd Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Yr Alban) yn Senedd yr Alban.<sup>5</sup> Daeth Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Yr Alban) 2018 i rym ym mis Mai 2018.<sup>6</sup>

### Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Isod mae tabl sy'n cofnodi unrhyw effaith bosibl ar y nodweddion gwarchoddedig a llwybrau lliniaru posibl, lle bo'n briodol.

Lle rydym wedi cofnodi "dim effaith", rydym wedi ystyried ac ymchwilio'r nodwedd i asesu unrhyw gysylltiadau â'r cynnig. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw effaith ar y nodweddion gwarchoddedig hyn naill ai ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, neu drwy chwilio llenyddiaeth berthnasol. Comisiynwyd chwiliad o ffynonellau niferus yn cynnwys briffiau, cyfnodolion, erthyglau cyffredinol, adroddiadau ymchwil, traethodau ymchwil, cyhoeddiadau swyddogol, llyfrau a phenodau llyfrau, gwefannau a chyrrff proffesiynol, ac nid ydym wedi gweld unrhyw effeithiau yn y meysydd hyn.

<b>Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig</b>	<b>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</b>	<b>Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</b>
Oedran: Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol: Bydd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cael effaith	Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.	

<sup>4</sup> Deddf Trwyddedu Swau 1981

<[https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga\\_19810037\\_en.pdf](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga_19810037_en.pdf)>

<sup>5</sup> Llywodraeth yr Alban, Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Bill, Memorandwm Polisi

<[http://www.parliament.scot/S5\\_Bills/Wild%20Animals%20in%20Travelling%20Circuses%20\(Scotland\)%20Bill/SPBill12PMS052017.pdf](http://www.parliament.scot/S5_Bills/Wild%20Animals%20in%20Travelling%20Circuses%20(Scotland)%20Bill/SPBill12PMS052017.pdf)>

<sup>6</sup> The Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018

<<https://www.legislation.gov.uk/asp/2018/3/contents>>

	gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid.		
Oedran: Pobl hŷn	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar bobl hŷn.	Mae ymarfer sgrinio wedi'i gwblhau. Byddai disgwyl i'r cynnig effeithio ar gydraddoldeb pawb. Bydd unrhyw effaith ar y gymuned ehangach yn un gadarnhaol, ac ni fydd yr effaith yn ymwneud yn benodol ag unrhyw nodwedd warchoddedig neu grŵp gwarchoddedig penodol, ond â chymdeithas yn ehangach.	Amh
Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)	Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar bobl ag anableddau. Gall gael effaith gadarnhao ar bobl anabl oherwydd bod sŵau mewn lleoliadau parhaol ac felly hwyrach eu bod yn gallu cynnig mynediad gwell i weld anifeiliaid gwyllt na syrcasau teithiol.	Fel yr uchod.	Amh
Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol)	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar faterion ailbennu rhywedd neu newid rhywedd.	Fel yr uchod.	Amh
Beichiogrwydd a mamolaeth	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar faterion beichiogrwydd a mamolaeth.	Fel yr uchod.	Amh
Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar faterion hil.	Fel yr uchod.	Amh

ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)			
Crefydd, cred a diffyg cred	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar faterion crefydd, cred a diffyg cred.	Fel yr uchod.	Amh
Rhyw / Rhywedd	Nid yw'r cynnig yn cael effaith ar faterion rhyw neu rywedd.	Fel yr uchod.	Amh
Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gyfeiriadedd rhywiol.	Fel yr uchod.	Amh
Priodas a phartneriaeth sifil	Nid yw'r cynnig yn cael effaith ar briodas a phartneriaeth sifil.	Fel yr uchod.	Amh
Aelwydydd incwm isel	Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar aelwydydd incwm isel - gweler y golofn ar liniaru.	Nid yw mwyafrif y syrzasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng prisiau tocynnau syrzasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a'r rhai sydd ddim. Mae'n bosibl y bydd pobl mewn aelwydydd incwm isel, sydd ddim yn byw ger sw neu atyniad tebyg, yn colli mynediad at anifeiliaid gwyllt os na allant deithio. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol, o ystyried dosbarthiad daearyddol swau yng Nghymru. Credwn fod y risg yn fach, a bod y ddadl foesegol dros wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt	Amh

		mewn sycasau teithiol yn gyfiawn.	
--	--	--------------------------------------	--

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi?

Trwy gydol proses lawn y Bil mae swyddogion yn gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â Chytuniadau'r Cenhedloedd Unedig a'r Confensiynau Hawliau Dynol fel sy'n briodol. Mae ein dull gweithredu yn arddel gwerthoedd tegwch, parch, cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymreolaeth.

### Deddf Hawliau Dynol 1998

Prif ffynhonnell cyfraith hawliau dynol yn y DU yw Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r rhan fwyaf o'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gyfraith y DU.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys yr hawliau a'r rhyddidau sylfaenol sydd gan bobl yn y DU. Maent yn cynnwys:

(Mae **Erthygl 1** yn rhoi rhagarweiniad ac nid yw'n rhan o'r Ddeddf Hawliau Dynol)

**Erthygl 2:** Yr hawl i fyw

**Erthygl 3:** Rhyddid rhag artaith neu driniaeth ddiraddiol

**Erthygl 4:** Gwahardd caethwasiaeth a llafur dan orfod

**Erthygl 5:** Yr hawl i ryddid a diogelwch

**Erthygl 6:** Yr hawl i gael treial teg

**Erthygl 7:** Dim cosb heb awdurdod cyfreithlon

**Erthygl 8:** Yr hawl i barch at fywyd a gohebiaeth breifat a theuluol

**Erthygl 9:** Rhyddid meddwl, cred a chrefydd

**Erthygl 10:** Rhyddid mynegiant

**Erthygl 11:** Rhyddid ymgynnull a chymdeithasu

**Erthygl 12:** Yr hawl i briodi a chael teulu

**Erthygl 13:** Yr hawl i rwymedi effeithiol

**Erthygl 14:** Gwahardd gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau a rhyddidau hyn

**Protocol 1, Erthygl 1:** Yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon.

**Protocol 1, Erthygl 2:** Yr hawl i addysg

**Protocol 1, Erthygl 3:** Yr hawl i gymryd rhan mewn etholiadau rhydd

**Protocol 13, Erthygl 1:** Diddymu'r gosb farwolaeth

Mae rhagor o wybodaeth am hawliau dynol ar gael ar wefan y British Institute for Human Rights: <http://www.bih.org.uk/>

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ffurfiol yn 2004 ac mae ein gwaith yn seiliedig ar gyflawni

amcanion craidd yr UNCRC.<sup>7</sup> Mae UNCRC wedi'i ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

<b>Hawliau Dynol</b>	<b>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</b>	<b>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</b>	<b>Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</b>
Amh	Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar Hawliau Dynol unigolyn.	Gellid awgrymu bod Erthygl 10 neu Erthygl 11 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol (neu Erthygl 31 UNCRC sy'n ymwneud â hawl plant i ymlacio a chwarae, a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau). Fodd bynnag, bydd syrcau teithiol yn gallu parhau i ymgynnull, teithio a pherfformio fel o'r blaen, ond heb anifeiliaid gwyllt, a chredwn na fyddai'r cynnig yn cyfyngu'n ormodol ar yr hawliau hyn.	Amh

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Plant a phobl ifanc <[https://lyw.cymru/plant-theuluoedd?\\_ga=2.113323143.1067107442.1557992484-881363834.1547048528](https://lyw.cymru/plant-theuluoedd?_ga=2.113323143.1067107442.1557992484-881363834.1547048528)>